

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

22.05.17

Y Swyddfeydd Dinesig, Pen-y-bont ar Ogwr

| Presennol | Sefydliad |
|---------------------------|---|
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Alyson Francis | Llywodraeth Cymru |
| Andrew Davies | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Catrin Lewis | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Charles Janczewski | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Claire Evans | Heddlu De Cymru |
| Cllr Hywel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Darren Mephram | Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Gavin Bown | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Heidi Bennett | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont |
| Judith Tomlinson | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Katy Chamberlain | Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr |
| Richard Hughes | AWEN |
| Simon Pirotte | Coleg Penybont |
| Vaughan Jenkins | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Hefyd yn bresennol | |
| Joanne McCarthy | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Kay Harries | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont |
| Lynne Berry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Zoe Wallace | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Yuan Shen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Judith Jones | Tîm Cymorth Partneriaeth |
| Gaynor Griffiths | Tîm Cymorth Partneriaeth |
| Ymddiheuriadau | |
| David Bebb | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Eirian Evans | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Huw Jakeway | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Joanne Abbott-Davies | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Mark Brace | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Martin Morgans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr |
| Martyn Evans | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sian Harrop-Griffiths | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Stuart Parfitt | Heddlu De Cymru |

| Eitem ar yr Agenda | Sylwadau | Cam Gweith-redu |
|--------------------|--|-----------------|
| 1 | Croeso a Chyflwyniadau | |
| 1.1 | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DM a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain. Cofnodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod. | |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth a Materion sy'n Codi | |
| 2.1 | Manwl gywirdeb: | |

| | | |
|----------|--|-----------|
| | <p>2.1 Dogfen Symud Cymru Ymlaen gan LIC Materion sy'n codi: Nododd AF fod digwyddiad y 1000 Diwrnod Cyntaf yn un llwyddiannus, gyda llawer o ynni i symud ymlaen, bydd adroddiad ar gael yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>3.4 Holodd AM am esboniad JR ynglŷn â'r pryder a godwyd, darparodd DM y cyd-destun ynglŷn â'r cofnodion a gymerwyd.</p> <p>7.4 Dywedodd AD y bydd ymgyrch Dechrau Gorau Mewn Bywyd y Gwasanaeth Iechyd yn cael ei lansio ar 23.05.17.</p> | |
| 3 | Adolygu'r Cylch Gorchwyl | |
| 3.1 | Dangosodd JJ o dan ganllawiau statudol yn dilyn yr etholiadau lleol fod angen adolygu'r cylch gorchwyl yn awr. | |
| 3.2 | Holodd AM a ddylai'r CG gofnodi'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel aelodau statudol drwy wahoddiad. Nododd DM fod BGC Pen-y-bont ar Ogwr wedi cytuno bod pob aelod yn gyfartal. | |
| 3.3 | Cam Gweithredu: Angen gwirio'r canllawiau statudol cyn gwneud unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau bod y CG yn cydymffurfio. | JJ |
| 4 | Penodi/Ailbenodi Cadeirydd | |
| 4.1 | Enwebwyd AD gan DM, a chytunodd pawb y dylai DM barhau fel Cadeirydd. | |
| 5 | Trawsnewid Cymunedau'n Gyntaf | |
| 5.1 | Darparodd LB drosolwg cynhwysfawr ynglŷn â sefyllfa bresennol a thrawsnewidiad Cymunedau'n Gyntaf. (Cylchredwyd y papur yn flaenorol). | |
| 5.2 | Bu trafodaeth yn dilyn hyn ynglŷn â phrosiectau gwrthdodi a'r angen i gydweithio er mwyn dod o hyd i fylchau a pheidio â chystadlu am yr un buddiolwyr. Nododd LB fod llawer o waith mewnol yn digwydd ar hyn o bryd i wneud rhaglenni yn gydnaws â'i gilydd, ac ni fydd gwasanaethau yn diflannu, ond byddan nhw yn gydnaws â phrosiectau eraill. | |
| 5.3 | Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r cynnig o gefnogaeth gan bartneriaid, cytunwyd y bydd y BGC yn ystyried adroddiad pellach yn yr Hydref, unwaith y bydd yr adolygiad o'r dewisiadau ar gyfer prosiectau a gyllidir yn etifeddol wedi cael ei wneud. Cam Gweithredu: Cyflwyno'r adroddiad i'r BGC yn dilyn yr adolygiad. | LB |
| 6 | Adolygu Llynfi 20 | |
| 6.1 | Ailadroddwyd y ffeithiau gan DM drwy ddweud bod y BGC wedi gofyn am ddiweddariad ar yr hyn a gyflawnwyd gan Llynfi 20, gyda golwg ar ailwneud hyn mewn ardaloedd eraill os ydyn nhw'n llwyddiannus neu ystyried beth i'w wneud os nad ydyn nhw yn llwyddiannus. | |
| 6.2 | Cyflwynodd JM ei chanfyddiadau, darparodd y cefndir a chymharodd yr archwiliad ecwiti iechyd sydd wedi cael ei ddiweddarau â'r un blaenorol a wnaed ar ddechrau'r rhaglen gan orffen gydag argymhellion. | |
| 6.3 | Dilynodd trafodaeth ynglŷn â'r pum ffrwd waith: <ul style="list-style-type: none"> • llawer o ymdrech yn yr ardal • mae'r gymuned wedi cael ei grymuso i symud y gwaith ymlaen • anawsterau wrth fesur beth sydd wedi bod yn llwyddiannus • disgwyl data o'r Cyfrifiad nesaf • a yw ffrydiau gwaith yn bryderon iechyd yn llwyr? • beth yw'r achosion gwaelodol? • beth a all y BGC ei wneud? | |
| 6.4 | Parhaodd y drafodaeth ynglŷn â'r angen am flaenoriaethau eang ar gyfer pob sefydliad sy'n aelodau o'r BGC i fynegi eu syniadau. Awgrymwyd i grŵp bychan o aelodau gyfarfod i edrych ar brosiect Llynfi 20 yn fwy manwl. | |

| | | |
|-----------|--|----------------------------|
| 6.5 | Cam Gweithredu: Gwirfoddolodd pedwar aelod i edrych ar brosiect Llynfi 20 a dychwelyd i'r PSB gyda rhai argymhellion cadarn ynglŷn â sut i fynd ymlaen. | DM, AF, HB & CE |
| 7 | Amcanion Llesiant Drafft | |
| 7.1 | Cyflwynodd JJ y drafft o'r amcanion llesiant gan nodi y bydd angen iddyn nhw fod wedi cael eu cytuno erbyn diwedd Mehefin. | |
| 7.2 | Datblygwyd yr amcanion awgrymedig yn dilyn dull y gweithdy gan y Grŵp Cynllunio, a oedd yn cynnwys cydweithwyr a enwebwyd gan yr aelodau. | |
| 7.3 | Roedd gweithdy tebyg a oedd yn ystyried adnewyddu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi nodi'r amcanion a oedd wedi cael eu cynnwys yn y drafft. | |
| 7.4 | Yn dilyn trafodaeth, cytunodd pawb eu bod angen cael amser i ystyried yr amcanion unigol. Pam ddylai'r BGC gytuno â'r amcanion a nodwyd? Sut gall yr amcan wneud gwahaniaeth? Os yw'r BGC yn anghytuno ag amcan, rhowch y rhesymau pam nad yw'n cytuno. | |
| 7.6 | Cam Gweithredu: cyflwyno'r cwestiynau hyn i'r grŵp cynllunio ar 05.06.17 ac yna eu cyflwyno i aelodau'r BGC ar gyfer gwneud penderfyniad. | JJ ALL |
| 8 | Grant Cynhaliaeth gan LIC | |
| 8.1 | Adroddodd JJ fod y grant wedi cael ei gymeradwyo a bydd y swydd yn cael ei hysbysebu cyn bo hir yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. | |
| 9 | UFA | |
| 9.1 | Croesawyd penderfyniad Pen-y-bont ar Ogwr i'r PDC fod yn rhan o'r BGC gan AM, mae hyn yn unol â dull Carl Sergeant. Teimlodd AM fod Cynllun Cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn llawer rhy eang ac mae angen gweithredu yn lleol er mwyn gwneud gwahaniaeth. Nododd AM lwyddiant Bwrdd Troseddu Ieuenctid Bae'r Gorllewin, gyda'r nifer o rai o dan 18 oed sy'n aildroseddu yn lleihau, a'r grŵp bychan sy'n troseddu am yr eildro yn cael eu hystyried drwy lens y PNPau. Ychwanegodd AM fod Cronfa Arloesi'r Heddlu wedi galluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu cynllun pilot gwell ar gyfer rheoli achosion sy'n edrych ar y rhai sydd rhwng 18 a 25 oed. Cam Gweithredu: AM i anfon adroddiad Keith Towler ar gyfer ei gylchredeg. | AM |
| 10 | Diolchiadau a diwedd y cyfarfod | |
| 10.1 | Dyddiad y cyfarfod nesaf, 24 Gorffennaf 2017 | |

| Agenda | Cofnod o Gamau Gweithredu | Gan Bwy |
|--------|--|----------------|
| 3.3 | Angen gwirio'r canllawiau statudol ynglŷn â statws yr aelodau | JJ |
| 5.3 | Paratoi adroddiad yn dilyn adolygu'r dewisiadau ar gyfer prosiectau a gyllidwyd yn etifeddol, i'w cyflwyno i'r BGC ar 25.09.17 | LB |
| 6.5 | Grŵp bychan o aelodau i gwrdd er mwyn edrych ar brosiect Llynfi 20 a dychwelyd i'r BGC gyda rhai argymhellion cadarn | DM, AF, HB, CE |
| 7.6 | Cyflwyno cwestiynau i'r grŵp cynllunio ar 5.06.17 ac yna eu cyflwyno i aelodau'r BGC i wneud penderfyniad. | JJ ALL |
| 9.1 | AM i gylchredeg adroddiad Keith Towler. | AM |